

2013 Rhif 337 (Cy. 39)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Penrhyndeudraeth, Gwynedd) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed 15 Chwefror 2013

Yn dod i rym 25 Chwefror 2013

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun—Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”) wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Chwefror 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Penrhyndeudraeth, Gwynedd) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 25 Chwefror 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn o'r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A487 ym Mhenrhyndeudraeth yn Sir Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 20 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Ystad Ddiwydiannol Griffin hyd at bwynt 10 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Minffordd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiad a Gwaharddiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fydd y cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 3 yn weithredol.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ymylon y darn o'r gefnffordd rhwng 08:00 o'r gloch a 17:00 o'r gloch, o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio drwy ganiatâd neu o dan gyfarwyddyd cwnstabl yr heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

Cymhwyso

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog
Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion
Cymru.

Dyddiedig y

15 Chwefror 2013

R Morgan

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.